VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Llwybr MENYWOD *Penarth*

Llwybr sy'n dathlu hanes 17 o fenywod Penarth

Kathleen Evans OBE
Mary Glynne
Ray Howard-Jones
Constance Maillard
Catherine Meazey
Edith Parnell
Margaret (Bunty) Thomas
Kathleen Thomas
Elizabeth Sheppard-Jones
Emily Pickford
Sheila Noel Gibbs
Hester (Hettie) Mackenzie
Joan Collins
Hilda Cross
Evelyn Allen

www.bromorgannwg.gov.uk

Llwybr

MENYWOD

Penarth

Gan adeiladu ar boblogrwydd Llwybr Menywod Y Barri, y mae'r llyfryn hwn yn dathlu'r llu o fenywod o Benarth sydd wedi gwneud eu marc. Trwy ddefnyddio'r un fformat ag o'r blaen, byddwn yn mynd â chi ar daith drwy Benarth er mwyn sôn am eu cyfraniad sylweddol i'r bywyd cyhoeddus.



www.bromorgannwg.gov.uk

Design HGT 02/14 04855



Mae sawl caffi i'w gael ar y daith – un yng nghanol y dref, un ar y Rhodfa Lan Môr ac un arall ar ben y clogwyn.

1. Edith Parnell
2. Catherine Guthrie Meazey
3. Marguerite (Bunty) Thomas
4. Hester (Hettie) Mackenzie
5. Hilda Janet Cross
6. Joan Collins
7. Emily Ada Pickford
8. Kathleen Thomas
9. Constance Mary Maillard BEM
10. Rosemary (Ray) Howard-Jones
11. Kathleen (Kath) Evans OBE JP
12. Eveline Allen
13. Sheila Margaret Noel Gibbs
14. Mary Glynne
15. Elisabeth Sheppard-Jones

1 Edith Parnell 1913 - 1938

Lle o Ddiddordeb Heol Trem yr Harbwr
CF64 1HE

Nofwraig hirbell oedd Edith, a nofiodd o Benarth i Weston-super-Mare ym mis Awst 1929, pan nad oedd ond yn16 oed. Hi oedd y newyddiadurwraig gyntaf i weithio i Asiantaeth Newyddion Reuters ym Mharis a Llundain, a'r fenyw gyntaf erioed i olygu papur Sul. Daeth yn rheolwr golygyddol asiantaeth hysbysebu Higham yn ddiweddarach, a bu farw'n ifanc yn 25 oed ar ôl rhoi genedigaeth i blentyn a fu farw hefyd.

2 Catherine Guthrie Meazey 1879 - 1957

Lle o Ddiddordeb Fflatiau Catherine Meazey, Heol y Frenhines
CF64 1HL

Cymwynaswraig adnabyddus oedd Catherine , sy'n cael ei chofio'n bennaf am ei gwaith gyda'r tlodion yn ystod y Dirwasgiad Mawr a'r ddau Ryfel Byd. Trefnodd Gronfa Sigaréts ar gyfer milwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a chreodd Gronfa Siôn Corn Penarth, a hefyd Gronfa'r Samariaid. Roedd y gronfa olaf hon yn helpu cleifion drwy gydol y flwyddyn ac yn darparu ar gyfer rhoi glo'n anrheg iddynt adeg y Nadolig. Cafodd y fflatiau eu henwi ar ei hôl er mwyn cydnabod ei gwaith.

3 Marguerite (Bunty) Thomas 1919 - 2003

Lle o Ddiddordeb Mainc Goffa, Eglwys Awstin Sant
De Maes yr Eglwys CF64 1BA

Athrawes fale ysbrydoledig ac uchel ei pharch oedd Marguerite. Fe'i gwnaed yn aelod oes o'r Academi Ddawns Frenhinol er mwyn cydnabod ei hymroddiad i'w galwedigaeth. Llwyddodd llawer o'i myfyrwyr i gael lle yn yr Ysgol Fale Frenhinol ac ar amryw o gyrsiau hyfforddiant dawns eraill. Drwy gymynrodd Marguerite, bu'n bosibl cynnal y digwyddiad 'Dancing Together' o dan reolaeth yr Academi Ddawns Frenhinol, Rhanbarth Cymru.

4 Hester (Hettie) Milicent Mackenzie 1863 - 1942

Lle o Ddiddordeb 107 Stryd Tir Llan CF64 1ED
a fu'n siop ac yn bencadlys Merched y Bleidlais

Un o Ferched y Bleidlais oedd Hettie ac yr oedd hefyd yn athro addysg cadeiriol a'r fenyw gyntaf ym Mhrydain i gael ei chyfarch fel athro coleg. Hi oedd y Gymraes gyntaf erioed i ymgeisio am sedd yn San Steffan pan wnaeth ei chais ym 1918. Agorwyd cangen o fudiad Merched y Bleidlais yng Nghaerdydd ym 1908, a Hettie a oedd yn un o'i haelodau gwreiddiol.

5 Hilda Janet Cross 1917 - 2013

Lle o Ddiddordeb Swyddfa Bost Heol Albert
CF64 1XL

Ganed Hilda ym Mhenarth, ymunodd â'r Swyddfa Bost yn ystod y 1930au a chafodd ei hyfforddi yn Llundain. Gweithiodd fel clerc ym Mhenarth, ac yn ddiweddarach aeth i ddysgu yn ysgol hyfforddi'r Swyddfa Bost yng Nghaerdydd. Mewn byd o ddynion, llwyddodd i godi drwy'r rhengoedd a chael ei phenodi o'r diwedd yn Bostfeistres Swyddfa Bost Heol Albert, lle bu'n aros nes iddi ymddeol ym 1977. Bu'n aelod o Eglwys Fethodistaidd Heol Albert ar hyd ei hoes, a daliodd nifer o swyddi yn yr eglwys. Gweithredodd fel trysorydd/ysgrifenyddes y Chwaeroliaeth nes ei bod bron yn 90 oed.

6 Joan Collins 1931 - 2008

Lle o Ddiddordeb Llyfrgell Penarth, Heol Stanwell
CF64 2YT

Ganed Joan yng Ngwlad yr Haf, a symudodd i Benarth ym 1953. Cafodd yrfa amrywiol fel gweithiwr cymdeithasol meddygol cyn dod yn athrawes ac yn hyfforddwr gwaith cymdeithasol. Golygodd a chyd-drefnodd y llyfrau 'We Remember it Well' ac 'I could have told you' ar gyfer Cylch Hanes Llafar Gorffennol Penarth a helpodd i gynhyrchu'r gyfres hanes bedwar llyfr.

7 Emily Ada Pickford 1881 - 1919

Lle o Ddiddordeb Cofgolofn Ryfel, Parc Alexandra, Heol y Traeth CF64 1FN

Mae llawer o enwau ar Gofgolofn Ryfel Penarth, ond un sy'n sefyll allan, sef Emily Pickford – dinesydd cyffredin a fu farw yn Ffrainc ar 7 Chwefror 1919 – 'marwolaeth drasig a achoswyd gan wrthdaro milwrol drwy anffawd ryfedd'. Roedd Emily yn gerddor, yn llafaregydd, yn gantores ac yn arweinyddes Côr Merched Penarth. Enillodd lawer o dlysau mewn eisteddfodau. Roedd hefyd wedi teithio ar hyd Ffrynt y Gorllewin er mwyn difyrru'r milwyr. Y noson y bu farw, yr oedd hithau a rhai eraill wedi bod yn perfformio mewn cyngerdd ym mhentref Gouy. Ar y ffordd yn ôl i Abbeville, llithrodd eu car dros y lan rewllyd a phlymiodd i afon Somme. Mae Emily wedi'i chladdu ym Mynwent Gymunedol Abbeville.

8 Kathleen Thomas 1908 - 1987

Lle o Ddiddordeb Glanfa Penarth, y Rhodfa CF64 3AU

Kathleen oedd y gyntaf i nofio ar draws Môr Hafren o Benarth i Weston-Super-Mare pan gyflawnodd y gamp ar 5 Medi 1927 a hi oedd pencampwr nofio hirbell cyntaf Cymru. Mae'r nofiad 11 milltir ar draws Môr Hafren (sy'n cyfateb i ddwywaith y pellter hwnnw oherwydd y cerhyntau) wedi'i goffáu ar blac ar Lanfa Penarth a osodwyd yn 2007, sef 80 mlynedd yn union ar ôl iddi gyflawni'r gamp.

7 Emily Pickford
Cofgolofn Ryfel



8

Kathleen Thomas
Plac ar y Lanfa

10 'Not One of Ours' 1942, Ray Howard-Jones

9 Constance Mary Maillard, BEM 1880 - 1984

Lle o Ddiddordeb Gerddi Eidalaidd, y Rhodfa CF64 3AU

Cynghorydd ym Mhenarth ac ymgyrchwraig gymdeithasol oedd Constance. Hi oedd y fenyw gyntaf i gadeirio Cyngor Dosbarth Trefol Penarth (1924-25) a hi a gynigiodd greu gardd lan môr ar y Rhodfa a ddaeth yn ddiweddarach yn Erddi Eidalaidd . Constance oedd ysgrifenyddes gyntaf Cymdeithas Merched y Bleidlais, Penarth a dyfarnwyd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig iddi am ei gwaith hynod fel trefnydd canolfan Gwasanaeth Gwirfoddol Menywod ardal Penarth.

10 Rosemary (Ray) Howard-Jones 1903 - 1996

Lle o Ddiddordeb Oriel Turner, Heol Plymouth CF64 3DH – cynhaliwyd ei harddangosfeydd yma

Roedd Ray neu 'Ray the Paint', fel y'i galwyd, yn arlunydd yn y traddodiad rhamantaidd yn ystod yr ail ryfel byd. Treuliodd ei blynyddoedd ffurfiannol ym Mhenarth yn paentio golygfeydd Cymreig. Mae llawer o'i lluniau'n dangos llongau ym Môr Hafren yn paratoi ar gyfer y glaniadau yn Normandi ar 'D-Day' a daeth yn un o lond llaw o fenywod a gafodd eu derbyn fel arlunwyr rhyfel. Paentiodd luniau o arfordir Penfro hefyd. Ym 1948, cafodd ei chomisiynu i gofnodi ynysoedd Echni a Rhonech.

11 Kathleen (Kath) Evans, OBE, JP 1925 - 1999

Lle o Ddiddordeb Tŷ'r Gorllewin, Heol Stanwell CF64 2YG

Roedd Kath Evans yn aelod gweithgar o sefydliadau gwleidyddol, cymdeithasol ac elusennol yn y Fro ac yn genedlaethol. Roedd yn gynghorydd tref, yn athrawes, yn ynad (ac yn gadeirydd y fainc) ac yn gadeirydd Cyngor Tref Penarth rhwng 1961 a 1962.

12 Eveline Allen

wedi marw 1999

Lle o Ddiddordeb Tŷ'r Gorllewin, Heol Stanwell CF64 2YG

Athrawes Ffrangeg a oedd wedi gwirioni'n llwyr ar iaith a diwylliant Ffrainc oedd Evelyn. Bu'n aelod o'r Pwyllgor Trefeillio ers ei sefydlu ym 1969 ac yr oedd yn helpu i drefnu teithiau cyfnewid rhwng Penarth a St Pol de Leon. Dyfarnwyd Rhyddid Tref St Pol de Leon iddi ym 1994 er mwyn cydnabod ei gwaith trefeillio.

13 Sheila Margaret Noel Gibbs

1912 - 2004

Lle o Ddiddordeb Eglwys Fethodistaidd y Drindod, Heol Stanwell CF64 2EX

Cymwynaswraig a diwygwraig gymdeithasol oedd Sheila Gibbs ac aelod amlwg o Eglwys Fethodistaidd y Drindod. Bu'n weithgar yng nghylch drama'r eglwys fel actores, cyfarwyddwraig, dylunydd gwisgoedd a dramodydd. Helpodd i ddatblygu Ymddiriedolaeth Elusennol Gibbs sy'n cynnig grantiau ac yn cyfrannu i achosion teilwng, a hi oedd y fenyw gyntaf i eistedd ar Bwyllgor Amcanion Cyffredinol yr Eglwys Fethodistaidd.

14 Mary Glynne

1895 - 1954

Lle o Ddiddordeb Ystafelloedd Paget, Heol Victoria CF64 3EG (sinema 'The Regal' 1932-40)

Brodores o Benarth a adwaenid wrth y llysenw 'y ferch o Benarth' oedd Mary Glynne. Dechreuodd ar ei gyrfa ym 1908 drwy gymryd rhan yn nrama 'The Dairymaids' yn Theatr y Dywysoges, Manceinion. Ymddangosodd mewn 24 o ffilmiau i gyd, sef ffilmiau mud a llafar fel ei gilydd, a chafodd lwyddiant aruthrol ar lwyfannau'r West End. Mae'n adnabyddus yn bennaf am ei rhannau yn 'The Good Companion' (1933) a 'The Angelus' (1937).

14

Mary Glynne
Ystafelloedd Paget

15 Elisabeth Sheppard-Jones 1920 - 2004

Lle o Ddiddordeb Meadow Lane
CF64 3QH

Awdures llyfrau plant oedd Elisabeth Sheppard-Jones - a ysgrifennodd storïau am Gymru a hanes Cymru, gan gynnwys casgliad o'r enw 'Forty-one Tales from Celtic Heritage for Children'. Bu'n rheolwraig yn Ysgol Headlands am nifer o flynyddoedd. Roedd yn rhaid iddi ddefnyddio cadair olwyn am weddill ei hoes ar ôl cael ei hanafu yn ystod gwasanaeth yng Nghapel y Gwarchodlu, Barics Wellington, Llundain ym Mehefin 1944, pan drawodd bom hedegog V1 yr adeilad. 121 o bobl a laddwyd yn yr ymosodiad.

Bunty Thomas
Eglwys Awstin Sant

3

12

Eveline Allen

Kath Evans, Tŷ'r Gorllewin

11

6

Llyfrgell Penarth
Joan Collins

7

Emily Pickford
Cofgolofn Ryfel

Kathleen Thomas
Plac ar y Lanfa



8

10

Ray Howard-Jones

Constance Maillard
Gerddi Eidalaidd 9

Edith Parnell
Heol Trem yr Harbwr

1

Elisabeth Sheppard-Jones

15

Hilda Cross, Swyddfa Bost Heol Albert

5

13

2

Fflatiau Catherine Meazey

Sheila Gibbs, Eglwys y Drindod

4

Hettie Mackenzie
107 Stryd Glebe